# Gellir cael copi o'r Hysbysiad hwn mewn print bras gan Lywodraeth Cymru, Trafnidiaeth, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

## Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990

## Gorchymyn Cau Priffyrdd (Iard Gychod Dickies, Lôn Glandŵr, Bangor, Gwynedd) 201-

HYSBYSIR DRWY HYN fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan Adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn awdurdodi cau'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn; darparu ar gyfer y rhan newydd o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn a gwella'r rhan o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn.

Os gwneir y Gorchymyn, nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn galluogi'r datblygiad a ddisgrifir yn Atodlen 4 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud. Bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff ei ddirymu.

Yn ystod y cyfnod o 28 o ddiwrnodau ar ôl 22 Chwefror 2012, gellir edrych ar gopïau o'r Gorchymyn a'r map a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn swyddfeydd Cyngor Dinas Bangor, Neuadd y Dref, Bangor, Gwynedd LL57 1DT neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cymru qA990863.

O fewn y cyfnod o 28 o ddiwrnodau a grybwyllir uchod, caiff unrhyw berson, drwy anfon hysbysiad at: Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ (gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA990863), wrthwynebu gwneud y Gorchymyn. Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi ei rhoi i ni a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/i'r datblygwr ac yn achlysurol i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datguddio eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ddelio â'r materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt. Pan fydd Gorchymyn Cau yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC pan fydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.cymru.gov.uk (Detholer: Deddfwriaeth/Is-ddeddfwriaeth/Deddfwriaeth ddrafft/Offerynnau Anstatudol Drafft/Deddf Cynllunio Gwlad a Thref: Gorchmynion Cau/2012).

M D BURNELL
Trafnidiaeth, Y Gangen Orchmynion, Llywodraeth Cymru

## YR ATODLENNI

### Atodlen 1

(Bras amcan yw pob mesuriad)

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w chau o dan y Gorchymyn hwn.

Rhan betryal ei siâp sy'n ffurfio rhan o'r briffordd a elwir yn Lôn Glandŵr, a'i hyd mwyaf yn 50.1 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 4.2 fetr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 210.4 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o bwynt A i bwynt B ar y plan a adneuwyd.

### Atodlen 2

Disgrifiad o'r rhan newydd o briffordd sydd i'w darparu o dan y Gorchymyn hwn.

Rhan afreolaidd ei siâp sy'n ffurfio rhan o'r briffordd a elwir yn Lôn Glandŵr, a'i hyd mwyaf yn 340.9 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 5.5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 1,874 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan yn dechrau ac yn dod i ben ym mhwynt E ar y plan a adneuwyd.

### Atodlen 3

Disgrifiad o'r rhan o briffordd sydd i'w gwella o dan y Gorchymyn hwn.

Rhan betryal ei siâp sy'n ffurfio rhan o'r briffordd a elwir yn Lôn Glandŵr, a'i hyd mwyaf yn 32.6 o fetrau, a'i lled mwyaf yn 2.5 metr, a chyfanswm ei harwynebedd yn 81.5 o fetrau sgwâr. Mae'r rhan yn ymestyn o bwynt C i bwynt D ar y plan a adneuwyd.

### Atodlen 4

Y Datblygiad Arfaethedig yn Iard Gychod Dickies, Bangor.

Dymchwel adeiladau presennol, creu cylchfan a ffordd i gerbydau gael mynd i'r safle o Lôn Glan Môr, creu llwybr troed o'r safle i Ffordd Garth a chodi datblygiad preswyl ar gyfer 72 o anheddau yn unol â chaniatâd cynllunio a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 6 Ionawr 2012 o dan gyfeirnod C09A/0410/11/LL.

# A copy of this Notice in larger print can be obtained from Welsh Government, Transport, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

## Town and Country Planning Act 1990

## The Stopping Up of Highways (Dickies Boat Yard, Lon Glandwr, Bangor, Gwynedd) Order 201-

NOTICE IS HEREBY GIVEN that the Welsh Ministers propose to make an Order under Section 247 of the Town and Country Planning Act 1990 to authorise the stopping up of the area of highway described in Schedule 1 to this Notice; to provide for the new area of highway described in Schedule 2 to this Notice and to improve the area of highway described in Schedule 3 to this Notice.

If the Order is made, the stopping up will be authorised only in order to enable the development described in Schedule 4 of this Notice to be carried out. The Order will cease to have effect if the planning permission expires or is revoked.

During the 28 days from 22 February 2012 copies of the Order and the deposited map may be inspected free of charge at the offices of the Bangor City Council, Town Hall, Bangor, Gwynedd LL57 1DT or may be obtained free of charge from the address below, quoting the Welsh Government reference qA990863.

Within the above mentioned period of 28 days, any person may, by notice to Transport, Orders Branch, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ (quoting reference qA990863), object to the making of the Order. Should you wish to object, support or make representations, we may need to consult with people and organisations outside of the Welsh Government. As part of the process of consulting with others, the information you have given us and your personal data will be passed to the applicant/developer and on occasion the local highway authority to enable them to respond to you. We will however, only disclose your personal details where it is necessary to do so to enable us to deal with issues you have brought to our attention. Where a stopping up Order becomes the subject of a Public Inquiry (PI), all correspondence is copied to the Inspector of the Inquiry and is kept in the PI Library when it is publicly available.

A copy of the Order and Notice can be viewed at the Welsh Government's website at www.wales.gov.uk (Select: Legislation/Subordinate Legislation/Draft Legislation/Draft Non-Statutory Instruments/Town and Country Planning Act Stopping Up Orders/2012).

M D BURNELL
Transport, Orders Branch, Welsh Government

## SCHEDULES

### Schedule 1

(All measurements are approximate)

Description of the area of highway to be stopped up under this Order.

A rectangular shaped area forming part of the highway known as Lon Glandwr, having a maximum length of 50.1 metres, a maximum width of 4.2 metres and a total area of 210.4 square metres. The area extends from point A to point B on the deposited plan.

### Schedule 2

Description of the new area of highway to be provided under this Order.

An irregularly shaped area forming part of the highway known as Lon Glandwr, having a maximum length of 340.9 metres, a maximum width of 5.5 metres and a total area of 1,874 square metres. The area begins and ends at point E on the deposited plan.

### Schedule 3

Description of the area of highway to be improved under this Order.

A rectangular shaped area forming part of the highway known as Lon Glandwr, having a maximum length of 32.6 metres, a maximum width of 2.5 metres and a total area of 81.5 square metres. The area extends from point C to point D on the deposited plan.

### Schedule 4

Proposed Development at Dickies Boat Yard, Bangor.

Demolition of existing buildings, creation of roundabout and vehicular access from Beach Road onto the site, creation of footpath from the site onto Garth Road and erection of residential development for 72 dwellings in accordance with planning permission granted under Part III of the Act of 1990 by the Council on 6 January 2012 under reference C09A/0410/11/LL.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government
www.cymru.gov.uk

BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE